Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar

# Gyngor Dinas Casnewydd

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Dinas Casnewydd

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ei leoli yn Ne Ddwyrain Cymru ac mae ganddo gyfanswm poblogaeth o 151,485. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 55 o ysgolion. Mae dwy ysgol feithrin a 42 ysgol gynradd, gan gynnwys tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae un o'r naw ysgol uwchradd yn ysgol cyfrwng Cymraeg a agorwyd yn ddiweddar. Yn ychwanegol, mae uned cyfeirio disgyblion a dwy ysgol arbennig.

Dechreuodd y prif weithredwr yn ei swydd ym mis Ionawr 2013, a phenodwyd y prif swyddog addysg ym mis Tachwedd 2017. Dechreuodd arweinydd y cyngor a'r prif ddeiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg yn eu rolau ym mis Mai 2016. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r awdurdod lleol ym mis Tachwedd 2011.

Casnewydd yw un o'r pum awdurdod lleol yng nghonsortiwm rhanbarthol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer gwella ysgolion. Mae hefyd yn gysylltiedig â threfniadau cydweithio eraill gyda'r pum awdurdod lleol, er enghraifft y bartneriaeth sy'n cefnogi addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ethnig lleiafrifol mewn ysgolion (GEMS).

Yn 2018-19, cynyddodd cyllideb addysg net y Cyngor uwchlaw newid canran cyfartalog Cymru, a'r gyllideb ddirprwyedig fesul disgybl yw'r isaf ond un o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghasnewydd wedi ei nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 18.6% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17.9%
- Mae 2.1% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, sydd gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Mae 24.8% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 11.1%
- Mae gan 21.0% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- Roedd 83 o blant ym mhob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2017, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 95 o blant ym mhob 10,000

## Crynodeb

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yng Nghasnewydd yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, ond mae cynnydd disgyblion yn rhy amrywiol ar draws sectorau eraill ac mewn ysgolion uwchradd yn benodol. Mae cymorth yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn effeithiol iawn, ac mae bron pob un o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth iaith yn y tymor hir yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

Mae swyddogion yn adnabod eu hysgolion yn dda ac mae ganddynt bartneriaethau cryf gydag ysgolion unigol. Mae'r rhain yn gefnogol ond hefyd yn gadarn a heriol. Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir mewn partneriaeth gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, sef y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yn gweithio'n dda i gefnogi a herio ysgolion cynradd i wella. Fodd bynnag, prin yw'r effaith a gafodd y gwasanaethau wrth hyrwyddo gwelliant mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n destun pryder. Ceir strategaethau effeithiol i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o adael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ond nid yw'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cynnwys cynllun cydlynus. Mae'r ddarpariaeth i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau yn bwrpasol ac mae bron pob un o'r ysgolion yn cymhwyso strategaethau cytûn yn gyson. Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer datblygu technolegau digidol yn y tymor hir a strategaeth briodol i hyrwyddo'r rhain ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys ysgolion.

Mae gan uwch aelodau etholedig a swyddogion weledigaeth glir a disgwyliadau uchel o ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae ansawdd prosesau hunanwerthuso ar bob lefel yn y gwasanaeth addysg yn rhy amrywiol. Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i bwysau ariannol allweddol, ac maent yn hyblyg yn eu dull o gyflawni blaenoriaethau.

## Argymhellion

A1 Gwella perfformiad cyffredinol ysgolion uwchradd

A2 Sefydlu strategaeth gydlynus ar draws yr holl wasanaethau perthnasol i wella deilliannau disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim

A3 Sicrhau bod gweithgareddau hunanwerthuso yn canolbwyntio ar yr effaith a gaiff gwasanaethau ar ddeilliannau, a’u gwerth am arian

A4 Cryfhau cyfleoedd ar lefel awdurdod lleol i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw

A5 Cyflwyno’r cynlluniau strategol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi adroddiad yr arolygiad, dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i’r afael â’r argymhellion a nodwyd trwy’r broses arolygu.

# Prif ganfyddiadau

## Deilliannau

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, ond mae cynnydd disgyblion yn rhy amrywiol ar draws sectorau eraill ac mewn ysgolion uwchradd yn benodol. Mae llawer o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol, sy'n derbyn cymorth iaith yn y tymor hir, yn gwneud cynnydd cryf iawn yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg mamiaith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr ysgolion cynradd yng Nghasnewydd y barnwyd eu bod o leiaf yn dda ar gyfer safonau, yn cymharu'n ffafriol â deilliannau arolygu yn genedlaethol. Mae nifer yr ysgolion cynradd sy'n derbyn barnau rhagorol am safonau yn y cyfnod hwn gryn dipyn yn uwch nag ydyw ledled Cymru gyfan. Mae sampl yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn rhy fach i wneud unrhyw gymariaethau ystyrlon o ddeilliannau arolygu, ond mae traean o ysgolion uwchradd Casnewydd mewn categorïau statudol ar hyn o bryd. Mae dwy o'r ysgolion hyn wedi aros mewn categori statudol yn rhy hir.

Mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd ddiwethaf, yn y dangosyddion allweddol sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae perfformiad disgyblion yn y dangosyddion hyn bellach yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn 2018, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion mwy abl hefyd, ac mae bellach yn cyd-fynd â pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, nid yw perfformiad grwpiau eraill o ddisgyblion ac mewn dangosyddion allweddol eraill mor gryf. Er enghraifft, nid yw perfformiad disgyblion yn y dangosyddion allweddol sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn awdurdodau lleol tebyg. Mae hyn hefyd yn wir am berfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth parhaus gan Wasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdod Addysg Gwent (GEMS), dros gyfnod o flynyddoedd, yn perfformio'n dda yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion allweddol sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Maent yn cyflawni i safon sy'n debyg i safon disgyblion eraill. Mae'r gwasanaeth yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau iaith yn gyflym, trwy gymorth gan gynorthwywyr addysgu dwyieithog, er enghraifft. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymgysylltu'n well â bywyd ysgol ar lefel academaidd a chymdeithasol ac yn gwella eu lles yn sylweddol. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo rhieni i gyfathrebu'n ystyrlon ag ysgol eu plentyn ac ymwneud â'i addysg.

Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o'r ysgol o bum niwrnod neu lai wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod wedi gostwng hefyd. Yn 2017, roedd y dangosydd hwn islaw cyfartaledd Cymru. Mae strategaeth symudiadau rheoledig yr awdurdod lleol yn llwyddiannus o ran cefnogi ychydig o ddisgyblion sy'n agored i niwed a fyddai fel arall wedi cael eu gwahardd yn barhaol. Er gwaethaf hyn, mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol wedi aros ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tair blynedd ddiwethaf.

Mae canran y disgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi gostwng yn sydyn dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae islaw cyfartaledd Cymru erbyn hyn. Mae ystod dda o brosiectau ar draws yr awdurdod lleol yn cefnogi'r gostyngiad hwn yn dda o ganlyniad i'r gwasanaethau gwerthfawr y maent yn eu cynnig ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys llawer o fentrau a ddarperir trwy 'Casnewydd Fyw', sef yr ymddiriedolaeth leol ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau, fel clybiau chwaraeon ysgol, gweithgareddau hybu iechyd, prosiectau pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a rhaglen mentora cymheiriaid. Yn ychwanegol, mae gwasanaethau fel cwnsela 'Parth Siarad' a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar y cyd â Phrifysgol De Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn. Bu safon lles disgyblion, y barnwyd ei fod yn dda neu'n well mewn arolygiadau, yn debyg i gyfartaledd Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf.

At ei gilydd, nid yw cyfraniadau disgyblion at werthuso'r amrywiaeth o fentrau, wedi eu datblygu'n ddigonol. Er bod yna Fforwm Ieuenctid Casnewydd, prin yw'r disgyblion o oedran ysgol uwchradd sy'n ymwybodol o'r corff hwn neu sy'n gwybod am ei waith. Nid oes llais gan ddisgyblion i'w helpu i osod cyfeiriad strategol addysg yn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arfer dda. Arweiniodd yr adborth gan ddisgyblion a'u rhieni ar y gwasanaethau a ddarperir gan GEMS at ailstrwythuro'r gwasanaeth i gynyddu niferoedd y cynorthwywyr addysgu dwyieithog a lleihau niferoedd yr athrawon cymorth arbenigol.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella ychydig ond mae'n parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn dangos tuedd o welliant, ac mae'n cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae cyfraddau absenoldeb parhaus, lle mae disgyblion yn colli mwy na diwrnod o ysgol bob wythnos ar gyfartaledd, ar draws yr awdurdod lleol am y pum mlynedd ddiwethaf, gryn dipyn yn waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

## Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n cysylltu â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### I ba raddau y caiff deilliannau disgyblion eu dylanwadu gan ansawdd gwaith y gwasanaethau gwella ysgolion?

Mae awdurdod lleol Casnewydd yn adnabod ei ysgolion yn dda ac mae ganddo ddealltwriaeth gadarn o lawer o faterion ysgolion unigol. Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, sef y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu cymorth effeithiol i ysgolion ar lawer o agweddau, gan gynnwys hyfforddi llywodraethwyr, gweithio rhwng ysgolion a gwella perfformiad mewn Saesneg a mathemateg. O ganlyniad, caiff y bartneriaeth hon effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion mewn meysydd pwysig. Mae'n hynod effeithiol o ran cefnogi deilliannau cryf mewn ysgolion cynradd, ac mewn Saesneg a mathemateg mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r awdurdod lleol wedi cael effaith ddigonol ar hyrwyddo gwelliant yn yr uned cyfeirio disgyblion a'r tair ysgol

uwchradd, sydd mewn categori statudol. Mae hyn hefyd yn wir am berfformiad disgyblion ysgolion uwchradd mewn dangosyddion sy’n cynnwys ystod eang o gymwysterau, a pherfformiad disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Wrth drefnu cymorth ar gyfer ysgolion, mae’r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth ofalus i’r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i asesu p’un a yw’r rhain yn bodloni anghenion ei ysgolion. Mae’n trafod diwygiadau lle bo angen. Er enghraifft, mae wedi gweithio gyda’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i addasu ei brosesau ar gyfer gosod targedau.

Mae gwerthusiad yr awdurdod lleol o effaith ei waith ei hun, a gwaith y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yn addas ar y cyfan, ac mae swyddogion wedi rhoi adborth i’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i wella ansawdd agweddau ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, fel gwaith ymgynghorwyr her. Fodd bynnag, nid yw’r awdurdod lleol yn gwerthuso’n ddigonol effeithiolrwydd y gwasanaethau y mae ef neu’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn eu darparu o ran eu heffaith ar gynnydd a safonau disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion mewn categorïau statudol.

**Pa mor dda y mae gwasanaethau’n cynorthwyo pobl ifanc i gynnal cynnydd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach (NACH) pan fyddant yn gadael yr ysgol?**

Mae’r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth strategol uchel i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NACH a lleihau nifer y bobl ifanc sy’n dod yn NACH. Mae’r prif swyddog addysg yn cadeirio Bwrdd y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, sy’n monitro’r cynllun gweithredu ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI) yn agos. Mae’r cynllun hwn yn amlinellu dull yr awdurdod lleol o fynd i’r afael â’r flaenoriaeth hon. Mae tri gweithgor, sy’n canolbwyntio ar bobl ifanc o dan 16 oed, y rheiny rhwng 16 ac 18 oed a darparwyr dysgu, yn cefnogi gwaith y bwrdd hwn yn dda.

Mae swyddogion yn mynd ati’n dda i nodi disgyblion o Flwyddyn 7 ymlaen yn gynnar ac mae strategaethau perthnasol ar waith i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o fod yn NACH. Mae’r rhain yn cynnwys arweiniad gan Gyrfa Cymru a defnyddio anogwyr dysgu i helpu disgyblion i ddewis llwybr addas iddynt pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae’r cydlynydd ymgysylltu a dilyniant yn monitro’r bobl ifanc sy’n symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth yn dda. Mae hyn yn helpu sicrhau eu bod yn cynnal eu hymgysylltiad.

Yn 2017, comisiynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid adolygiad annibynnol o’i waith. Un o brif ganfyddiadau’r adolygiad oedd bod angen nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NACH yn gynharach. Ar hyn o bryd, nid oes digon o ffocws ar nodi’r rheiny o oedran ysgol gynradd sydd mewn perygl i helpu’r bartneriaeth i gynllunio cymorth.

Mae’r awdurdod lleol wedi dechrau mynd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn addas trwy gynllun gweithredu’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Mae’r trefniadau partneriaeth cryf rhwng y cydlynydd ymgysylltu a dilyniant, ysgolion uwchradd, Gyrfa Cymru a Coleg Gwent yn helpu sicrhau ffocws cryf ar y plant a’r

bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fod yn NACH, neu sydd yn NACH. Mae ystod dda o gyfleoedd cwricwlwm amgen, gan gynnwys rhaglenni pwrpasol, yn helpu cefnogi ymgysylltu neu ailymgysylltu â llawer yn y grŵp hwn yn llwyddiannus.

**A yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da yn yr ysgol?**

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod y ddarpariaeth i wella'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim heb ei datblygu'n ddigonol. Dros gyfnod, ni fu ymateb swyddogion i berfformiad cymharol wan y disgyblion hyn yn ddigon cyflym nac effeithiol. Yn benodol, nid yw dull strategol yr awdurdod lleol yn ddigon cydlynus, ac mae ynddo ddiffyg gweledigaeth glir. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn rhoi digon o ystyriaeth i'r potensial i weithio gyda gwasanaethau awdurdod lleol ehangach ac asiantaethau eraill i sicrhau bod y dull yn fwy cydlynus a chyfannol. O ganlyniad, nid yw'r cymorth a ddarperir ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi cael digon o effaith ar eu cynnydd, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd digonol o gymharu â grwpiau tebyg mewn awdurdodau lleol eraill.

Mae swyddogion yn cydnabod bod ychydig o ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol yn meddu ar arfer sy'n cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed yn arbennig o dda. Mae'r dulliau a ddatblygwyd gan yr ysgolion hyn yn cynnwys gweithio amlasiantaethol effeithiol, darpariaeth canolfannau cymunedol a dysgu teuluol a rhaglenni sy'n cynorthwyo rhieni a phlant sy'n wynebu sefyllfaoedd domestig heriol. Hefyd, maent yn canolbwyntio'n drylwyr ar wella addysgu a sicrhau bod cwricwlwm priodol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn darparu enghreifftiau gwerthfawr o sut i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i wneud cynnydd da.

Mae'r awdurdod lleol yn gofyn i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg gynnal gweithgareddau addas i sicrhau bod ysgolion yn cynnal ffocws ar berfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Er bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gwerthuso p'un a yw ysgolion yn cydymffurfio gyda termau ac amodau y grant datblygu disgyblion, nid yw swyddogion yn gwerthuso'n ddigonol effaith strategaethau penodol o ran gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

At ei gilydd, mae diffyg strategaeth gydlynus i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn golygu nad oes dull cynhwysfawr a chydlynus o fynd i'r afael â'u tanberfformiad ar draws ysgolion yr awdurdod lleol.

**Pa mor effeithiol yw gwasanaethau sy'n cynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb disgyblion, a lleihau gwaharddiadau?**

Yn gyffredinol, mae gan yr awdurdod lleol strategaethau effeithiol i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Mae ei brotocol presenoldeb a gwahardd yn cefnogi ymyrraeth dargedig a chyfathrebu effeithiol gydag ysgolion, llywodraethwyr, ymgynghorwyr her, swyddogion lles addysg a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae swyddogion wedi datblygu strategaethau cyson i ddwyn ysgolion a'u cyrff llywodraethol i gyfrif am bresenoldeb eu disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr. Mae'r her hon yn helpu sicrhau bod ysgolion yn rhoi ystod gyson o strategaethau ar waith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb cyffredinol.

Mae ymgyrch proffil uchel yr awdurdod lleol, sef ‘Attendance Matters’, yn amlygu pwysigrwydd presenoldeb da a’r cysylltiad rhwng hyn a chyrhaeddiad. Mae’r fforwm presenoldeb yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ysgolion gynorthwyo ei gilydd a rhannu strategaethau i wella presenoldeb. Mae gwaith amlasiantaethol yn hynod effeithiol o ran cynorthwyo disgyblion unigol sy’n agored i niwed i ymgysylltu â’r ysgol. Fodd bynnag, mae cyfradd gyffredinol absenoldeb parhaus yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Ceir protocolau a phrosesau cyson sy’n effeithiol o ran lleihau cyfraddau gwaharddiadau cyffredinol. Mae’r awdurdod lleol yn herio ysgolion am y rhain yn rheolaidd ac yn monitro perfformiad yn unol â’r targedau a osodwyd ar gyfer lleihau nifer y gwaharddiadau. Mae’r panel symudiadau rheoledig yn monitro gwaharddiadau disgyblion yn ofalus ac yn cefnogi trosglwyddiadau disgyblion rhwng ysgolion yn effeithiol, lle bynnag y bo modd. Mae’r panel yn cyfarfod bob wythnos ac yn cynnwys ystod eang o asiantaethau ac ysgolion. Mae’n galluogi partneriaid i rannu arfer effeithiol a chael trafodaeth broffesiynol ddefnyddiol am briodoldeb strategaethau i leihau cyfraddau gwaharddiadau. Mae hyn yn helpu lledaenu arfer effeithiol, er enghraifft defnyddio pecynnau cwricwlwm amgen effeithiol a ddarperir gan ‘Casnewydd Fyw’ a dulliau adferol amgen i hyrwyddo ailymgysylltiad disgyblion.

Mae’r awdurdod lleol yn gweithio’n agos gydag ystod o ddarparwyr i alluogi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd i elwa ar becynnau pwrpasol, er enghraifft i gefnogi eu lles emosiynol a meithrin gwydnwch. Mae’r rhain yn cefnogi anghenion disgyblion sy’n agored i niwed yn dda ac yn eu helpu i ailymgysylltu â dysgu. Mae’r ysgol wedi ymrwymo’n gryf i les a llwyddiant disgyblion sy’n defnyddio’r ddarpariaeth amgen hon, ac mae ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb am ariannu hyn o’u cyllidebau eu hunain.

**Pa mor dda y mae gwasanaethau’n cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu ymddygiadau a medrau sy’n gwella eu lles?**

Rhoddir blaenoriaeth uchel o fewn yr awdurdod lleol i ddarpariaeth i gefnogi lles plant a phobl ifanc. Mae swyddogion ar draws ystod eang o wasanaethau yn sicrhau eu bod yn addasu eu darpariaeth yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau lles newidiol plant a phobl ifanc. Maent yn gweithio’n gynhyrchiol gyda phartneriaid eraill i sicrhau cyllid a gwasanaethau allanol i gefnogi lles gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc yn llwyddiannus.

Mae grŵp monitro lles sefydledig yr awdurdod lleol, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion a swyddogion, yn effeithiol wrth asesu darpariaeth ysgolion ar gyfer lles eu disgyblion. Er enghraifft, mae’r grŵp yn dadansoddi ystod eang o ddata o olrheiniwr lles ysgolion yr awdurdod lleol yn rheolaidd, i nodi anghenion ysgolion ac agweddau ar les sy’n gryf. Mae hyn yn eu galluogi i drefnu digwyddiadau hyfforddi, fel hyfforddiant ymlyniad, lle caiff darparwyr gyfle i rannu arfer effeithiol gyda chydweithwyr.

Mae GEMS yn darparu lefel uchel o gymorth ar gyfer disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a’u teuluoedd, yn enwedig trwy iaith eu cartref. Maent yn cyflwyno cymorth pwrpasol mewn ysgolion, sy’n gwella lles y disgyblion hyn yn llwyddiannus. Yn benodol, mae cynorthwywyr addysgu dwyieithog yn gweithio’n effeithiol gyda newydd-ddyfodiaid i’w helpu i ymgynefino a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Mae prosiect ‘Gweld y byd trwy ein llygaid ni’ (‘See the world

though our eyes') wedi helpu hyrwyddo cynhwysiant trwy gyflwyno disgyblion i nodweddion gwahanol ddiwylliannau, gan gynnwys Teithwyr Roma. Mae hyn wedi helpu meithrin cysylltiadau da o fewn cymunedau ac wedi gwella lles disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda 'Casnewydd Fyw' i wella lles plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae'n trefnu prosiectau i helpu disgyblion sy'n agored i niwed drosglwyddo'n esmwyth o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn yr haf y llynedd, cafodd eu hymgyrch 'Fit and Fed' effaith gadarnhaol ar wella lles yng ngwyliau ysgol tua phedwar cant o ddisgyblion trwy ddarparu prydau iach a chwaraeon, gweithgareddau coginio a chelf ar eu cyfer.

Mae ystod eang o fentrau yn cefnogi medrau ac ymddygiadau plant a phobl ifanc mewn ysgolion. Caiff llawer o'r rhain effaith gadarnhaol ar wella lles disgyblion. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn defnyddio dulliau adferol i baratoi disgyblion i ymdopi â gwrthdaro yn fwy llwyddiannus ac felly gwella ymddygiad.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cydnabod bod angen deall a mynd i'r afael ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae seicolegwyr addysg wedi defnyddio ymchwil weithredu i gynllunio'r 'Arrow Project' i gynorthwyo ysgolion uwchradd yn eu gwaith yn y maes hwn. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio gyda thair ysgol i helpu disgyblion a staff i ddeall materion iechyd meddwl. Mae seicolegwyr addysg wedi defnyddio data o'r prosiect 'Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion' i nodi a darparu hyfforddiant buddiol ar bryderon iechyd meddwl mwyaf disgyblion. Er enghraifft, maent wedi gweithio gyda disgyblion i wella eu harferion cysgu a mynd i'r afael â'u gorbryder ynglŷn â delwedd y corff trwy weithdai rhyngweithiol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn ar wella iechyd meddwl disgyblion ar draws yr awdurdod lleol.

**Pa mor eang y mae disgyblion yn manteisio ar brofiadau dysgu digidol o ansawdd uchel, ac a yw hyn yn eu helpu i ddatblygu medrau digidol effeithiol?**

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer datblygu technolegau digidol yng Nghasnewydd yn y tymor hir. Mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i gysylltedd y ddinas a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wrth gyflwyno gwasanaethau. Er enghraifft, mae'n gweithio'n dda i wella cyflymder ac effeithlonrwydd cysylltiadau band eang sydd ar gael i'w meysydd gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd datblygu medrau digidol ei gymuned ac yn nodi hyn yn flaenoriaeth lefel uchel yn ei gynllun corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth addysg yn adlewyrchu hyn yn ei brosesau cynllunio gwelliant. Yn ychwanegol, nid yw'r awdurdod lleol yn cyfleu ei drefniadau i gynorthwyo athrawon i wella medrau digidol disgyblion yn ddigon da, nid yw ysgolion bob amser yn glir ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Mae adroddiadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi dealltwriaeth briodol ar y cyfan i uwch arweinwyr o natur y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda, er enghraifft, o ysgolion arloesi digidol sy'n cyflwyno profiadau dysgu digidol o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion. Maent yn monitro pa mor aml y mae disgyblion yn manteisio ar blatfform adnoddau dysgu digidol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddarlun cwbl gywir o ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob ysgol am nad oes ganddynt ddigon o dystiolaeth uniongyrchol i seilio eu barnau arni.

Pan fydd ysgolion yn nodi angen, mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau dysgu proffesiynol o ansawdd da ar gyfer staff ysgol i wella addysgu medrau digidol. Mae swyddogion yn cydnabod manteision cymorth o ysgol i ysgol i rannu arfer dda wrth ddatblygu'r medrau hyn. O ganlyniad, mae ganddynt brosesau gwell ar gyfer nodi a rhannu arfer effeithiol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i athrawon weld arfer dda a'i haddasu ar gyfer ei defnyddio yn eu hysgol eu hunain. Er enghraifft, mae ysgol gynradd arweiniol yn y rhwydwaith yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu medrau arwain arweinwyr canol mewn TGCh ar draws yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynorthwyo arweinwyr digidol i ddatblygu medrau gwerthfawr i wella darpariaeth a chyflwyno hyfforddiant yn eu hysgolion eu hunain. Mae swyddogion yn ystyried effaith dysgu proffesiynol ar fedrau athrawon yn briodol ac yn gofyn am farn cyfranogwyr yn gyson i helpu gwerthuso'i effaith.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda i gynorthwyo disgyblion i aros yn ddiogel ar-lein. Mae'n hyrwyddo'r defnydd o adnoddau effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae'n monitro'n ofalus pa ysgolion sy'n defnyddio'r adnoddau hyn, a pha mor aml. Mae swyddogion yn trefnu cymorth effeithiol i sicrhau bod cysylltiadau ysgolion â'r rhyngrwyd yn cynnwys gweithdrefnau diogelwch priodol. Ceir systemau addas i sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau pan fyddant yn dewis peidio â defnyddio'r darparwr a ddewiswyd gan yr awdurdod lleol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan uwch aelodau ac uwch swyddogion etholedig weledigaeth glir ar gyfer addysg yng Nghasnewydd. Mae'r arweinwyr hyn wedi ymrwymo'n dda i addysg, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer deilliannau i blant a phobl ifanc yn yr awdurdod lleol. Mae'r flaenoriaeth a roddir i addysg yng nghynllun corfforaethol 2017 i 2022 a lefel yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer gwasanaethau addysg yn adlewyrchu hyn. Mae'r cynllun corfforaethol yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Dros gyfnod, mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau a deilliannau mewn rhai meysydd, ond wedi cael effaith gyfyngedig ar rai eraill. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2011, mae deilliannau a darpariaeth ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd wedi aros yn gryf ar y cyfan. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu arweinyddiaeth gynaledig a chryf o ran GEMS dros flynyddoedd lawer, gan arwain at ddeilliannau da iawn ar gyfer disgyblion ethnig lleiafrifol a gynorthwyir ar draws pob sector. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr gwasanaethau addysg wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac ar gyfer y rheiny mewn ysgolion uwchradd a'r uned cyfeirio disgyblion.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae llawer o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn y gwasanaethau addysg wedi ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ar lefel uwch. Mae'r awdurdod lleol wedi rheoli'r cyfnod hwn o newid yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae gan yr arweinwyr hyn ddealltwriaeth dda o berfformiad mewn addysg, ac ansawdd y gwasanaethau addysg.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ymgysylltu'n dda â staff yn y gwasanaeth addysg, mewn ysgolion ac mewn gwasanaethau rhanbarthol, i ddatblygu perchnogaeth ar y cyd o weledigaeth yr awdurdod lleol. Mae'r ymgysylltu hwn yn galluogi staff i ddylanwadu ar gamau gweithredu i fodloni'r amcanion yn y cynllun corfforaethol a gwella gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar waith y gwasanaeth addysg cyfan.

Mae uwch arweinwyr yn barod i wneud penderfyniadau anodd. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i bwerau i ymyrryd yn ddiweddar mewn ysgolion sy'n destun pryder, trwy ddefnyddio uwch swyddogion ac aelodau etholedig i gryfhau cyrff llywodraethol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniadau arwyddocaol am wasanaethau addysg o bryd i'w gilydd, heb ystyried y canlyniadau'n llawn. Er enghraifft, arweiniodd cau'r ganolfan adnoddau dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern at gostau cynyddol yn gysylltiedig â lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion wedi eu heffeithio.

Mae ansawdd y perthnasoedd y mae'r awdurdod lleol wedi eu datblygu gyda'i ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn golygu bod ymddiriedaeth ddigonol o bob cyfeiriad am drafodaeth aeddfed ynglŷn â materion anodd ac ar gyfer annog a derbyn sicrhau ansawdd a her drylwyr ar lefel strategol.

Mae cynllun y gwasanaethau addysg yn darparu llwyfan defnyddiol ar gyfer cyflawni'r amcanion perthnasol yn y cynllun corfforaethol, yn ogystal â mynd i'r afael â blaenoriaethau o fewn y gwasanaeth ei hun. Mae cynlluniau tîm yn ategu'r cynlluniau hyn, ond nid yw'r camau gweithredu a'u heffaith ddisgwyliedig yn ddigon penodol yn gyson.

Bu dull Casnewydd o ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ymatebol, ac ni fu'n ddigon strategol. Mae'r cynlluniau diweddarach yn dangos ymrwymiad cryfach i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae'r bwriad i agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn gam cadarnhaol ymlaen. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio dull cryfach i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae arweinwyr yn y gwasanaeth addysg yn defnyddio ystod o ddulliau buddiol i fonitro cyflwyno cynlluniau trwy gydol y flwyddyn. Maent yn gwirio cynnydd mewn meysydd blaenoriaeth allweddol ac yn asesu'r effaith ar ddeilliannau. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn llai trylwyr o ran monitro gwasanaethau wedi eu comisiynu, fel 'Casnewydd Fyw' a'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol wedi ei gyfyngu yn ei allu i asesu'r gwerth am arian a ddarperir gan wasanaethau o'r fath.

Mae gan y gwasanaeth addysg bolisi hunanwerthuso clir, sydd yn ei gylch cyntaf. Ceir ymagwedd iach at hunanwerthuso gan uwch arweinwyr, ac ymrwymiad i hunanfyfyrio beirniadol. Fodd bynnag, mae ansawdd hunanwerthuso ar bob lefel o fewn y gwasanaeth yn rhy amrywiol, gan gynnwys barnau am werth am arian. Mae defnyddioldeb dangosyddion perfformiad allweddol ac olrhain cynnydd o fewn timau yn anghyson. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad tymhorol 'tîm ar dudalen' bob amser yn darparu asesiad cywir o gynnydd i uwch arweinwyr.

Mae'r broses graffu yn gwella.  Mae aelodau etholedig yn gynyddol drylwyr wrth fonitro a herio cynnydd a chefnogi gwneud penderfyniadau mewn meysydd allweddol.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r system gorfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol o fewn y gwasanaeth addysg i gynorthwyo staff i gyflawni eu rolau. Mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi ei staff ac yn dangos lefelau cryf o fuddsoddiad yn eu dysgu proffesiynol, a chymorth ar gyfer eu lles.  Mae arweinwyr yn cynorthwyo rheolwyr newydd yn dda, ac fe gaiff staff ar bob lefel amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr sy'n datblygu eu medrau, yn ehangu eu hymwybyddiaeth ac yn eu paratoi ar gyfer gwaith newydd.

Mae gan yr awdurdod lleol bolisïau clir a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu, sy'n bodloni gofynion.

Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i'r pwysau allweddol o fewn y gyllideb addysg. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir, y maent yn cydnabod y bydd angen dull tymor hir arnynt i sicrhau atebion cynaliadwy a chost effeithiol.  Maent yn defnyddio capasiti mewnol ychwanegol yn briodol i gynorthwyo'r gwasanaeth addysg i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol sylweddol.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dull rhagweithiol o geisio sicrhau cyllid i gyflawni ei flaenoriaethau, er enghraifft ar gyfer adeiladau ysgolion a chymorth ar gyfer disgyblion ethnig lleiafrifol, gan gynnwys cyllid mewnol ac allanol fel ei gilydd.  Ceir trefniadau addas ar gyfer sicrhau bod defnydd ysgolion o gyllid grant yn briodol.

Ceir partneriaeth effeithiol â'r fforwm cyllideb ysgolion o ran cyllido ysgolion.  Er enghraifft, cynhaliwyd ymgynghoriad effeithiol ag ysgolion ynglŷn â newidiadau diweddar i gyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.  Mae'r fformiwla cyllid ar gyfer ysgolion yn ystyried ffactorau perthnasol, ond mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen adolygu'r fformiwla i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion ysgolion yn sgil y newid ym mhoblogaeth y disgyblion.

Mae prosesau i gynorthwyo'r holl ysgolion â rheoli adnoddau a rheolaeth ariannol yn systematig.  I ymateb i'r heriau ariannol cynyddol y mae ysgolion yn eu hwynebu erbyn hyn, mae arweinwyr yn datblygu rhaglen tymor byr ddefnyddiol i roi cymorth a chyngor ychwanegol iddynt am reoli adnoddau a rheolaeth ariannol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2019